**Beirniadaeth Cystadleuaeth 360**

**Stori Fer dan 19 oed**

**Beirniad: Meinir Pierce Jones**

Daeth un ar ddeg ymgais i law – casgliad o storïau amrywiol, gwreiddiol a darllenadwy – ac yn eu plith stori ddyfodolaidd, stori realiti amgen, stori frawychus a stori'n ymdrin yn sensitif â phwnc colli iaith (nid y Gymraeg ond Ongota). Roedd egni creadigol a dyfeisgarwch yr awduron yn fy mhlesio'n fawr ac mae'n amlwg fod yna gyfoeth o dalent sgrifennu ymhlith y to ifanc. Mewn ambell stori, er hynny, roedd y mynegiant yn aneglur a'r iaith yn wallus a hynny'n amrywio'n wirioneddol ar y pleser o ddarllen (roedd ar y mwyaf o fân gamgymeriadau a gwallau teipio hyd yn oed rhai o'r storïau gorau). O ran cywirdeb a graen y ffordd orau i wella'ch Cymraeg ysgrifenedig yw trwy ddarllen, darllen a darllen – amrywiaeth o bob math o ddeunydd o gylchgronau i nofelau, ysgrifau, straeon byrion a barddoniaeth neu flogiau hyd yn oed.

Y stori sy'n mynd â hi yn y gystadleuaeth hon eleni yw stori Wil Carreg Bach. Ceir yma gymeriadu a deialogi ardderchog, hiwmor iach a disgrifiadau bachog ond yn fwy na hynny i gyd, dyma'r stori a berodd ymateb emosiynol ynof fi. Teimlwn fy mod yn teithio yng nghwch llenor greddfol wrth ddarllen ei stori. Mae stori Now-wê sy'n cael yr ail wobr, yn stori ddyfeisgar, gogleisiol ac uchelgeisiol mewn iaith lân a chaboledig, ac roeddwn i'n ysu am ei haildarllen ar ôl ei gorffen. Y stori sy'n cael y drydedd wobr ydi stori Muckherjee, stori wedi'i gosod yn y dyfodol a adroddir gan oroeswr trychineb; mae'n darllen fel pennod agoriadol nofel a'r ysgrifennu graenus ac ymddangosiadol syml yn llwyddo i dynnu'r darllenydd i mewn a'i sodro yn y fan a'r lle. Hoffwn roi gair o ganmoliaeth hefyd i stori Tudwal ('Canibaliaid Cigfa') gyda'i hiwmor tywyll, ac 'Ynys' stori slic a sinematig Penfras.

1. Wil Carreg Bach
2. Now-wê
3. Mukherjee